# y dinesydd

Medi 1998 PAPUR BRO DINAS CAERDYDD A'R CYLCH Rhif 239


# Camp Eisteddfodol

Llongyfarchiadau i bawb o fro *Y Dinesydd* a gyfrannodd mewn rhyw fodd tuag at lwyddiant Eisteddfod Bro Ogwr eleni.

Rhaid estyn llongyfarchiadau arbennig i **Emyr Lewis** ar ei gamp yn ychwanegu Coron yr Eisteddfod Genedlaethol at y Gadair a enillodd eisoes. Derbyniodd ei ddilyniant ardderchog o gerddi ganmoliaeth eithriadol gan y beirniaid. Dywedodd un ohonynt, Alan Llwyd, ei fod yn haeddu dosbarth ar ei ben ei hun. Er ei fod yn byw bellach yng Nghraig-cefn-parc, magwyd Emyr yng Nghaerdydd, ac y mae ei rieni yn byw yn Llys-faen. Braf yw gweld fod i Gaerdydd, ac ardal y Waun Ddyfal yn enwedig, le mor allweddol yng ngherddi'r Goron.

Yr oedd Caerdydd hefyd yn gefndir i ddilyniant arall o gerddi a ddaeth yn agos at gipio'r Goron eleni, sef eiddo 'Camera'. Ffugenw **Dr Grahame Davies** oedd hwnnw, brodor o ardal Coed-poeth, Wrecsam, sydd bellach yn is-olygydd gyda'r BBC yng Nghaerdydd ac yn aelod yn Eglwys Dewi Sant.

Mae **Steve Wilshaw** o Dreganna, enillydd gwobr Dysgwr y Flwyddyn eleni, yn mynychu Eglwys Minny Street ac eisoes wedi cymryd rhan mewn oedfaon yno. Bu **Kenneth Sedgebeer**, Creigiau, yn fuddugol mewn cystadleuaeth yn yr adran 'cyfansoddi i ddysgwyr' a **Christine Pugh**, Y Barri, yn un o'r buddugwyr mewn cystadleuaeth i baratoi defnyddiau ar gyfer dysgwyr.

Llongyfarchiadau cynnes yn ogystal i **Rhys Powys**, Butleigh Ave., am ei ysgrif bortread ardderchog o Richard James Edwards, neu Richie o'r Manics. Mae nifer o'r farn mai dyma'r gwaith rhyddiaith gorau yn y *Cyfansoddiadau* eleni. Cafwyd canmoliaeth uchel hefyd i emyn-dôn fuddugol yr Eisteddfod, a gyfansoddwyd i eiriau gan y diweddar Barch. Rhys Nicholas, Porth-cawl. Ei chyfansoddwr yw **Einion Dafydd**, Bangor, mab Thomas ac Eirwen Davies, Llandaf. Hefyd yn yr Adran Cerddoriaeth, daeth **Howard Watts** o'r Eglwys Newydd i'r brig am ei osodiad o Weddi'r Arglwydd.

Ymhlith y cystadlaethau llwyfan, bu **Caryl Pollard**, Radur, yn fuddugol ar yr adrodd o'r Ysgrythur i rai rhwng 12 a 16 oed, **Gavin Ashcroft**, Pentre-poeth, yn drydydd ar yr adrodd unigol rhwng 16 a 19 oed, a **Pedwarawd Nantgarw** o'r Rhath yn gyntaf mewn cystadleuaeth stepio. Daeth **Ceri Williams** o Dreganna yn drydydd yng nhystadleuaeth Ysgoloriaeth Towyn Roberts, **Côr Merched Canna** yn ail ymhlith y corau merched, a **Iona Jones**, Llandaf, yn gyntaf ar yr unawd soprano. Daeth y grŵp **BTMX** yn gyntaf mewn cystadleuaeth offerynnol agored, **Paul Carey Jones**, Rhiwbina, yn drydydd yng nghystadleuaeth yr unawd operatig 19-30 oed, **Band RAF Sain Tathan** yn ail yn un o'r cystadlaethau bandiau pres, a bu **Dawnswyr Nantgarw** yn fuddugol yng Nghystadleuaeth Goffa Lois Blake. Daeth **Theatr Crwys** yn drydydd ar actio drama hir, a **Merched y Garth** yn gyntaf yng nghystadleuaeth y côr cerdd dant.

Llongyfarchiadau hefyd i'r **Parch. Denzil John**, gweinidog y Tabernacl, ar ennill cystadleuaeth y soned. Mae ei soned arobryn, ar y testun 'Ewenni', yn gwau cyfeiriadau at grochenwaith Ewenni â hanes Edward Matthews, Ewenni, un o hoelion wyth y pulpud Cymraeg yn y ganrif ddiwethaf, ac un a fu'n byw yng Nghaerdydd am gyfnod.



Y Prifardd Emyr Lewis enillydd y Goron yn Eisteddfod Bro Ogwr gyda'i briod Angharad, Owain (8 oed), Dyfan (5 oed) yn dal y goron, ac Esyllt (2 oed). *Llun: Robin Griffith*

Wrth i'r rhifyn hwn fynd i'r wasg, daeth y newydd trist am farwolaeth Mrs Eirwen Davies, Llandaf, gwraig Mr Thomas Davies sy'n gyfrifol am dudalen chwareuon *Y Dinesydd*, ac un o bileri bywyd Cymraeg Caerdydd. Estynnwn ein cydymdeimlad dwys i Mr Davies a'r teulu yn eu profedigaeth.

**Yn y rhifyn hwn**

**Yr atodiad blynyddol yn rhestru gweithgareddau Cymraeg Caerdydd a'r Fro**

# Y Dinesydd

**Medi 1998, Rhif 239.** **ISSN 1362-7546**

Cyhoeddir *Y Dinesydd* gan Bwyllgor *Y Dinesydd.*
Fe'i cysodir gan PPS, 139 Station Road, Ystum Taf, Caerdydd, a'i argraffu gan Wasg Morgannwg, Mynachlog Nedd.

**Anfonwch ddefnyddiau ar gyfer rhifynHydref at un o'r gohebwyr canlynol erbyn 25 Medi:**

**Newyddion y Fro:**
Mr Garwyn Davies, 27 Baron Road, Penarth (Ffôn: 708253).
**Newyddion o'r Eglwysi:** Y Parchedig Gwilym Dafydd, 4 Coryton Rise, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd (Ffôn: 626811).
**Newyddion Ysgolion Cynradd:**
Mr B. D. Harries, 6 Lakeside, Caerdydd (Ffôn: 756562).
**Newyddion Ysgol Glantaf:** Mrs S. E. Williams, Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf, Heol y Bont, Ystum Taf, Caerdydd (Ffôn: 333080)
**Newyddion Ysgol Plasmawr:** Mrs Siriol Wilde, Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr, Ffordd Pentre-baen, Tyllgoed, Caerdydd (Ffôn: 405499)
**Newyddion Chwaraeon:** Mr Thomas Davies, 41 Highfields, Caerdydd (Ffôn/Ffacs: 564540).
**Newyddion Cyffredinol:** Mr W. J. Jones, 46 Heol Crystalwood, Caerdydd (Ffôn: 756282; Ffacs: 758106).

**Anfonwch unrhyw ymholiadau golygyddol at:**
Mrs Linda Thomas, 3 Llwynfedw Gardens, Llwynbedw, Caerdydd (Ffôn: 693302).
**Anfonwch unrhyw sylwadau am ddosbarthu at:**
Mr Robin Jones, 1 Kings Road, Radur, Caerdydd (Ffôn: 842929).

## HYSBYSEBION

Mae'r *Dinesydd* yn ffordd ddelfrydol o hysbysebu ac mae incwm hysbysebion yn hanfodol at gynnal y papur. Dylai pawb sydd am hysbysebu gysylltu â:

Miss Catrin Rowlands, 42 Carling Court, Croes Cwrlwys, Caerdydd CF5 4PH (Ffôn: 01222 598243).

## CYFRANIADAU ARIANNOL

Mae ein trysorydd, Mr Rheon Tomos, 37 Heol Felindra, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF4 7JE (Ffôn: 521325) yn croesawu unrhyw gyfraniad bob amser. Cofiwch fod *Y Dinesydd* yn dibynnu am ei barhad ar gyfraniadau'r sawl sy'n ei ddarllen.

## FFURFLEN CYFRANNU

Amgaeaf rodd o £__________ fel cyfraniad at gynnal *Y Dinesydd.*

Enw: ..........................................................................

Cyfeiriad: ....................................................................

............................................... Côd Post: ....................

Rhif Ffôn: ...................................................................

Anfoner y ffurflen hon at Mr Rheon Tomos, 37 Heol Felindra, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF4 7JE.

## FFURFLEN TANYSGRIFIO

Amgaeaf danysgrifiad blwyddyn o £15 er mwyn derbyn *Y Dinesydd* drwy'r post yn rheolaidd.

Enw: ..........................................................................

Cyfeiriad: ....................................................................

............................................... Côd Post: ....................

Rhif Ffôn: ...................................................................

Anfoner y ffurflen hon at Mr Rheon Tomos, 37 Heol Felindra, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF4 7JE.

## Calendr y Dinesydd


**Gwener, 25 Medi**
Cylch Llyfryddol Caerdydd: 'Amgueddfa Werin Cymru – Ddoe, Heddiw ac Yfory' gan John Williams Davies, yn Ystafell y Pwyllgor, Amgueddfa Werin Cymru, Sain Ffagan, am 7.00 p.m.
**Sadwrn, 26 Medi-Sul, 27 Medi**
Dathlu Gŵyl Fihangel yn Amgueddfa Werin Cymru, Sain Ffagan. Manylion pellach: Siân Hughes (573485).
**Sul, 27 Medi**
Oedfa Ddiolchgarwch yng Nghapel Pen-rhiw, Sain Ffagan, am 3.00 p.m. Pregethwr: Maxwell Evans.
**Iau, 1 Hydref-Sadwrn, 3 Hydref**
Dalier Sylw yn cyflwyno 'Tair', drama newydd Meic Povey, yn Theatr Sherman am 8.00 p.m. Tocynnau: 01222-230451.
**Llun, 5 Hydref**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina: 'Hanesyn o Gaerdydd' gan Gareth Williams, yn neuadd Eglwys Bethany, Heol Llanisien Fach, am 7.30 p.m.
**Llun, 5 Hydref**
Cymdeithas Gymraeg Dinas Powys a'r Cylch: Noson Cynhaeaf, gyda chroeso arbennig i ddysgwyr, yn neuadd Eglwys Sant Pedr, Dinas Powys, am 7.30 p.m.
**Iau, 8 Hydref**
Cwlwm Busnes Caerdydd a'r Cylch yn cyfarfod yn Churchills, Llandaf am 6.00 p.m.: Cyflwyniad ar ran Cyngor Dinas a Sir Caerdydd ar ddyfodol y Brifddinas.
**Iau, 8 Hydref**
Cyngor Eglwysi Cymraeg Caerdydd: Cyfarfod Diolchgarwch yng nghapel y Crwys am 7.30 p.m.
**Gwener, 9 Hydref**
Cymdeithas Cymry'r Eglwys Newydd: Noson yng ngofal y Llywydd, Dr Eirian Dafydd, yn neuadd Eglwys Bethel, Heol Pen-llin, am 7.30 p.m.
**Llun, 12 Hydref**
Merched y Wawr, Cangen Caerdydd: 'Gweithio gyda Gwydr Lliw' gan Ruth Shelley, yn neuadd Eglwys Minny Street am 7.30 p.m.
**Llun, 12 Hydref**
Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd: 'Datblygu Drygiau Newydd.' Darlith gan Roger Jones (PENN Pharmaceuticals) ym Mhrif Adeilad Prifysgol Caerdydd, Parc Cathays, am 7.30 p.m.
**Gwener, 16 Hydref**
Cylch Llyfryddol Caerdydd: 'Myfi neu Arall?' gan Marion Eames, yn Ystafell X/0.04, Adeilad y Dyniaethau, Rhodfa Colum, Prifysgol Caerdydd, am 7.00 p.m.
**Mawrth, 20 Hydref**
Cymrodorion y Barri: 'Hanes Cymdeithas drwy Ddoliau' gan Elin ac Eirlys Davies, yn neuadd Eglwys Annibynnol Gymraeg y Barri, King Square, am 7.15 p.m.
**Llun, 2 Tachwedd**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina: 'Cloddio'r Nadolig' gan Iris Cobbe, yn neuadd Eglwys Bethany, Heol Llanisien Fach, am 7.30 p.m.
**Llun, 9 Tachwedd**
Merched y Wawr, Cangen Caerdydd: 'Canu'r Byd a'r Betws' gan D. Roy Saer, yn neuadd Eglwys Minny Street am 7.30 p.m.
**Iau, 12 Tachwedd**
Cyngor Eglwysi Cymraeg Caerdydd: 'Mawlgan' gan Alan Luff, yng nghapel Bethel am 7.30 p.m.
**Gwener, 13 Tachwedd**
Cymdeithas Cymry'r Eglwys Newydd: Sgwrs gan Dr Bethan Jones o Ysgol Feddygol Cymru, yn neuadd Eglwys Bethel, Heol Pen-llin, am 7.30 p.m.
**Llun, 16 Tachwedd**
Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd: 'Anawsterau Trafnidiaeth Heddiw ac Yfory.' Darlith gan Eryl Jones ym Mhrif Adeilad Prifysgol Caerdydd, Parc Cathays, am 7.30 p.m.
**Mawrth, 17 Tachwedd**
Cymrodorion y Barri: 'Hanes Gwisgoedd yr Orsedd' gan Jean Huw Jones, Rhydaman, yn neuadd Eglwys Annibynnol Gymraeg y Barri, King Square, 7.15p.m.
**Gwener, 20 Tachwedd**
Cylch Llyfryddol Caerdydd: 'Thomas Jones yr Almanaciwr' gan yr Athro Geraint H. Jenkins, yn Ystafell X/0.04, Adeilad y Dyniaethau, Rhodfa Colum, Prifysgol Caerdydd, am 7.00 p.m.
**Gwener, 20 Tachwedd**
Cymdeithas Gymraeg Dinas Powys a'r Cylch: Noson Lawen, gyda'r elw at achosion da, yn neuadd Eglwys Sant Pedr, Dinas Powys, am 7.30 p.m.
*Os ydych am gynnwys digwyddiadau yn y Calendr, anfonwch y manylion at: Dr. E. Wyn James, 16 Kelston Rd., Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF4 2AJ.*

Cofiwch ymweld â safle'r *Dinesydd* ar y We:
**http://ds.dial.pipex.com/town/parade/ow12/**

Cydnabyddir cefnogaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg a Chyngor y Celfyddydau i'r cyhoeddiad hwn.

## CROESAIR gan Rhian Williams

**Rhif 1** **Medi 1998**



**AR DRAWS**

2. Creadur mympwyol. (5)
5. Sain corn bob yn ail yn ddiau. (4)
7. Offerynnau cerdd ar ben rhai anifeiliaid! (4)
8. Troi'r te berw ynghyd â'r 'AA' yn y ddinas arall. (8)
9. Golygu y 'Gog Egryn' i'r Wasg. (8)
11. Dyfarniad mewn ysgubor yn Lloegr. (4)
12. 'Ni âd efe i'th droed lithro: ac ni ___ __ ___' (Salmau). (4,2,7)
15. I'r ___ y rhed y dŵr. (4)
17. Gwneud yn amlwg y tagodd di rywsut â phedol. (8)
19. Tenantiaid y twlc a'r tir - anifeiliaid y nos yw'r rhain. (3,5)
21. Dymchwel slym diaddurn. (4)
22. I'r cant a hanner cyntaf mae'n amlwg. (4)
23. Mae'r Undeb yn Lloegr yn syth. (5)

**I LAWR**

1. Llestri William mewn drygau amrywiol. (7)
2. Blawd gwyn! (3)
3. Herc a naid i'r asgell. (5)
4. Danfon y clerig oddeutu Ebrill 1af i'r tir caregog. (7)
5. Pa fodd mae dechrau seinio utgorn tangnefedd? (3)
6. Daw o'r wy yn wyrdd iawn. (5)
10. Blew hanner gwyn ar y rhiw. (5)
11. Bu Ada yn gwneud cychod. (5)
13. Ymegnïo ac edrych rywsut dros y mur di-ddiwedd. (7)
14. 'Hen estron gwyllt o 'ddant y llew' __ __ lond ei wên.' (Crwys) (1,6)
16. Ar glo. Datglowch y sawr! (5)
18. Ceidwadwr yn dal Robin a'i ddarnio. (5)
20. 'Ond cariad pur sydd fel y __ yn para tra bo dau.' (3)
21. Sarhad, agosach i fyny. (3)

## Llwyddiannau Hope Hanlan

Yn ystod mis Gorffennaf ymwelodd Hope Hanlan â Gregynog yn rhinwedd ei swydd fel cynrychiolydd Prydeinig y Comisiwn yn y Cenhedloedd Unedig sy'n ymwneud â ffoaduriaid, i roi darlith am waith y comisiwn ar iawnderau ffoaduriaid. Cafodd hi ei haddysg yn Ysgol Uwchradd Lady Margaret a dysgodd Gymraeg yno gan gystadlu yn eisteddfodau'r Urdd. Mae'n enedigol o Jamaica a'i hathrawes Gymraeg oedd y ddiweddar Eiry Humphreys.

## Dr Manon MVO

Mae Dr Manon Williams, Ysgrifennydd Preifat Cynorthwyol i'r Tywysog Siarl a merch Myra ac Emyr Jenkins, Rhiwbina, wedi derbyn yr MVO a roddir i bobl fu'n gwasanaethu'r teulu brenhinol. Mae hi'n briod â Jeremy Williams, y canwr ac mae ganddyn nhw un ferch. Mae'r ddau'n gyn-ddisgyblion Ysgol Glantaf. Bydd hi'n ymadael â'i swydd yn y man ond bydd yn dal i weithio'n achlysurol i'r Tywysog pan fo angen.

## Croeso i Groeseirwraig

Bu'n siom i lawer pan deimlodd Mr Gwyn Lewis Davies - 'Ap Lewsyn' - yn gynharach eleni ei fod yn bryd iddo roi'r gorau i baratoi croeseiriau ar gyfer *Y Dinesydd*, ac yntau bellach dros ei 90 oed. Bu wrth y gwaith am ddwy flynedd ar bymtheg, gan roi pleser (a rhwystredigaeth!) i laweroedd. Cafwyd portread ohono gan Nia Hall Williams yn rhifyn Ebrill/Mai o'r *Dinesydd* eleni, a manteisiwn ar y cyfle hwn i ddiolch iddo'n gynnes unwaith yn rhagor am ei lafur cyson a hollol wirfoddol dros y blynyddoedd.

Wedi'r diolch, mae'n bleser gennym gyhoeddi fod Rhian Williams wedi cytuno i ymgymryd â'r gwaith o baratoi croeseiriau ar gyfer *Y Dinesydd* at y dyfodol - er nad yw wedi ymrwymo i barhau hyd nes iddi gyrraedd ei 90 oed! Mae hi'n groeseirwraig brofiadol eisoes, gan mai hi a fu'n gyfrifol am lunio croesair *Y Cylchgrawn Efengylaidd* dros y deunaw mlynedd diwethaf. Dymunwn yr un pleser iddi yn y gwaith o baratoi'r croeseiriau ac y mae'n sicr o roi i eraill wrth iddynt geisio eu datrys.

Fel yn achos croeseiriau Ap Lewsyn, bydd yr ateb cywir cyntaf a dynnir ar hap yn derbyn tocyn llyfrau yn wobr. Felly anfonwch eich atebion ar fyrder at Rhian Williams, 56 Clearwater Way, Glan-y-llyn (*Lakeside*), Caerdydd CF2 6DJ, ac erbyn 30 Medi fan bellaf.

Un person nad yw'n croesawu'r ffaith fod Rhian yn ymgymryd â chroesair *Y Dinesydd* yw ei thad, y Parch. J. D. Williams, Pen-y-groes (sydd ar fin symud i fyw ati), gan na fydd modd iddo gystadlu ar y croesair o hyn allan!

## Siambr Fasnach Caerdydd

Agorwyd cyfarfod blynyddol Siambr Fasnach Caerdydd yng Ngwesty'r Bae ddiwedd Mehefin. Y cadeirydd newydd yw'r cyfreithiwr Ceri Preece, Yr Eglwys Newydd, partner yng nghwmni Cyfreithwyr Hugh James.

## Gŵyl Feithrin Flynyddol

Cynhaliwyd Gŵyl flynyddol Mudiad Ysgolion Meithrin ddiwedd Mehefin. Cafwyd nifer o weithgareddau yng Nghaerdydd a'r cyffiniau, ond oherwydd y tywydd anffafriol, bu'n rhaid gohirio'r orymdaith o Erddi Sophia i Gastell Caerdydd. Yng Nghanolfan Feithrin yr Hen Gapel yn Adamsdown, eilliwyd pennau dwy o'r mamau sef Meryl Hopwood a Ruth Clinch, er mwyn codi arian at y cylch. Llwyddon nhw i godi bron £300.

## Agor Buarth Chwarae

Ddechrau Mehefin bu agoriad swyddogol buarth chwarae a adeiladwyd gan ddau ddwsin o wirfoddolwyr Ymddiriedolaeth y Tywysog Siarl wrth ochr adeilad yr YMCA yn Court Road, Y Barri. Fe'i defnyddir gan ddisgyblion y Cylch Meithrin Cymraeg sy'n cyfarfod yn yr adeilad.

## Penodiadau newydd

Penodwyd Daniel Jones yn gomisiynydd rhaglenni Saesneg BBC Wales. Bu'n ddisgybl yn Ysgol Gyfun Rhydfelen. Mae'n hanu o Gaerffili ond yn byw bellach yng Nghaerdydd.

Swyddog Datblygu newydd Cyngor Chwaraeon Cymru yw Brian Davies a arferai fod yn gapten tîm y Saracens. Cafodd ei fagu yn y Barri ac aeth i Ysgol Gyfun Llanhari.

## Croesawu babanod newydd

Llongyfarchion i Alan ac Erith Davies, Yr Eglwys Newydd ac Eglwys Dewi Sant er enedigaeth merch fach, Catrin, sydd eisoes yn llond yr aelwyd.

Llongyfarchiadau hefyd i Eleri a Robert Melhuish, Pen-twyn, ar enedigaeth merch, Rhian Mair, yn Ysbyty'r Brifysgol ar 19 Awst - ŵyres gyntaf i Enid a Gwynfor Jones, Cyncoed, a Margaret a Jacky Melhuish, Pen-y-lan.

## Llongyfarch graddedigion

Llongyfarchiadau i'r canlynol ar ennill graddau prifysgol yn ystod yr haf:

i **Siriol Griffiths**, merch Falmai a Brian Griffiths, Rhiwbina, ar ennill gradd mewn Cymdeithaseg ac Addysg ym Mhrifysgol Caerdydd. Mae Siriol yn bwriadu cymryd blwyddyn i ffwrdd o fyd addysg ffurfiol cyn mynd i ddilyn cwrs Diploma mewn Ymgynghoriaeth ym Mhrifysgol Caerodor.

i **Non Jones**, merch Dilys a Garfield Jones, Yr Eglwys Newydd ar ennill gradd mewn Ffrangeg ac Almaeneg ym Mhrifysgol Cymru, Abertawe. Mae'n bwriadu mynd i Brest, yn Llydaw, i ddysgu Saesneg i fyfyrwyr.

i **Rhian Davies** merch Pat a Dan Davies, Y Mynydd Bychan ar ennill gradd mewn Astudiaethau Americanaidd ym Mhrifysgol Cymru, Abertawe.

i **Ceiri Torjussen**, Rhiwbina, enillydd medal aur y Prif Gyfansoddwr yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd eleni, ar ennill gradd ddosbarth cyntaf ym Mhrifysgol Caerefrog. Ddiwedd yr haf aeth i astudio ymhellach yng Nghaliffornia.

i **Geoffrey Wright**, yr actor o ardal Wrecsam sy'n byw yng Nghaerdydd ers blynyddoedd, ar ennill gradd allanol trwy gyfrwng y Gymraeg ym Mhrifysgol Cymru, Aberystwyth.

i **Dr Julie Wilcox**, Caerdydd ar ennill gradd Ph.D. mewn Seicoleg Clinigol ym Mhrifysgol Caerdydd. Llwyddodd i wneud hyn ynghyd â magu dau o blant. Tipyn o gamp yn wir.

i **Dr Wyn James**, Cadeirydd Pwyllgor *Y Dinesydd* ac aelod o staff Adran Gymraeg Prifysgol Caerdydd, ar ennill ei ddoethuriaeth yn ddiweddar. Enillodd ei radd am ei waith yn golygu emynau Ann Griffiths, Dolwar-fach. Mae Wyn yn un o brif arbenigwyr emynyddiaeth yng Nghymru.

## Priodas yn y Ganolfan!

Llongyfarchion i Siân Jobbins a Gary Lewis (swyddogion Canolfan yr Urdd, Caerdydd) ar eu priodas fis Gorffennaf. Pob dymuniad da iddynt.

## Cydymdeimlo

Ddiwedd Mehefin bu farw Mr Merfyn Griffiths, cyn-brifathro Ysgol Gyfun Llanhari yn Ysbyty Dwyrain Morgannwg wedi cystudd hir a blin. Bu angladd preifat iddo yn ei gartref, Rhos, Minffordd ger Penrhyndeudraeth. Cydymdeimlwn yn fawr â'i briod, Nan, a'r plant yn eu profedigaeth.

Cydymdeimlwn â Siôn Eirian, y dramodydd, ei frawd Guto a gweddill y teulu ar farwolaeth eu tad, y bardd-bregethwr, Eirian Davies ddechrau Gorffennaf. Bu'r arwyl yn Amlosga Treforys a bu cyfarfod coffa iddo yng Nghapel y Tabernacl, Caerfyrddin.

Cydymdeimlwn â Menna Cravos a Gwyn Davies ar farwolaeth eu mam, Marged Davies, Llandaf, ganol Mehefin. Bu'r gwasanaeth angladdol yng Nghapel y Crwys.


## Casglu arian at achosion da

Ganol Mehefin bu Parti Tenovus yng Nghlwb Ifor Bach gydag artistiaid fel Heather Jones, Dave Burns, Mabon ac eraill. Codwyd £1600 at Tenovus.

## Cadeirlan Llandaf a'r Ŵyl Gorawl

Prin yw'r digwyddiadau Cymraeg yng Nghadeirlan Llandaf ond cynhaliodd eglwysi Cymraeg yr esgobaeth eu gŵyl gorawl flynyddol yno eto eleni a bu'n llwyddiant mawr. Cafwyd cyfraniadau buddiol gan ddisgyblion o Ysgol Gyfun Llanhari ac Ysgol Gymraeg Pen-cae. Pregethwyd yn rymus gan Esgob

## Eisteddfod Sain Ffagan




Estynnwn groeso cynnes i holl ddarllenwyr *Y Dinesydd* i eisteddfod gyntaf Amgueddfa Werin Cymru. Fe'i cynhelir Sadwrn, 21 Tachwedd yn neuadd Institiwt y Gweithwyr, Oakdale, ar safle'r Amgueddfa, y cyfarfodydd i ddechrau am 12.00 a 5.30.

Y Llywyddion yw Phyllis Kinney a'r Dr Meredydd Evans. Yr Arweinydd a'r Beirniad Llên yw Islwyn Jones. Beirniad Cerdd: Alun Guy. Beirniad Adrodd: Aled Gwyn. Cyfeilydd a Thelynores: Lois Dafis.

Trefnwyd gwledd o gystadlaethau gan ddechrau gyda phlant o dan wyth oed. Cynigir y gadair am gerdd: 'Amgueddfa Werin Cymru', a thestun y soned, cywydd neu gyfres o englynion yw 'Iorwerth C Peate' neu 'Ffransis G Payne'. Gofynnir am frawddeg neu frawddegau a phob gair yn dechrau â'r llythrennau D neu Dd. Y gamp i'r limrigwyr yw gorffen y pennill:

*Wrth grwydron Sain Ffagan ryw ddiwrnod*
*Fe welais beth rhyfedd a hynod...*

Dwy gystadleuaeth yn yr Adran Gerdd yw Canu Emyn (agored) a Chôr heb fod dros 40 o leisiau: 'Cyflwyniad yn Gymraeg o dan 10 munud'. Rhoddir cyfle i'r adroddwyr a'r digrifwyr gyflwyno adroddiad neu stori ddigri, deialog neu sgets a cheir cystadleuaeth 'Côr Adrodd neu Gyflwyniad Llafar'. Ceir hefyd gystadlaethau yn adrannau Canu Gwerin, Cerdd Dant a Dawnsio, Celf a Chrefft, Arlunio, Ffotograffiaeth a Fideo. Y mae testunau y rhan fwyaf o'r cystadlaethau llwyfan yn agored. Gwaith un o grefftwyr yr Amgueddfa, Gwyndaf Breeze, yw'r gadair fechan a'r cwpanau pren i arweinyddion y corau a'r partïon.

Carwn ofyn i bawb, yn blant ac oedolion, ddod i gystadlu, cefnogi a mwynhau. Gellir cael rhaglen (am ddim) ac unrhyw wybodaeth bellach oddi wrth yr ysgrifenyddion: Elaine Roszkowska a Meinwen Ruddock, Amgueddfa Werin Cymru, Sain Ffagan, Caerdydd, CF5 6XB Ffôn: 01222- 573432, 573427 neu 573500.

*Robin Gwyndaf*

## Ennill ysgoloriaeth

Enillydd Ysgoloriaeth Sgrîn eleni i'r Coleg Ffilm Ewropeaidd yn Ebeltoft yn Nenmarc yw Mathew Peter Lewis o'r Eglwys Newydd. Mae'r ysgoloriaeth yn werth £6,000 ac yn galluogi'r enillydd i dreulio wyth mis yn dilyn cwrs ffilm. Astudiodd Mathew'r Celfyddydau Cain yng Ngholeg Celf Chelsea, lle y dechreuodd ei ddiddordeb ym myd y ffilm.

## Minny Street, Caerdydd

Cawsom dystio i fedydd dau faban ym mis Gorffennaf: Elis Huw, mab Rhian a Kevin Widgery, fore Sul, 12 Gorffennaf ac Owain Roger, mab Meryl a Gethin Ellis, fore Sul, 19 Gorffennaf. Cawsom hefyd y fraint o groesawu pump o aelodau newydd: David Greenslade, Mrs Mairwen Price, Mrs Eirlys Pugh, Mrs Siân Ward a Dafydd Elfyn Williams.

## Eglwys Ebeneser: Colli'r Parch Ddr R Tudur Jones

Bu colli Dr R Tudur Jones, cyn-brifathro Coleg Bala-Bangor, mor ddisymwth ddiwedd Gorffennaf yn ergyd drom i eglwys Crist ac i Gymru oll, ac yn arbennig i ni yma yn Ebeneser gan ei fod yn dad i'n gweinidog y Parch Alun Tudur a'n cyn-weinidog, y Parch Geraint Tudur, ac yn ogystal yn dad-yng-nghyfraith a thaid i Elin, Vikki a'r plant. Cawsom y fraint o addoli dan ei arweiniad droeon ar hyd y blynyddoedd a chael cyfle i wrando ar ei genadwri unplyg a nerthol. Roedd cyfraniad Dr Tudur i fywyd ysbrydol a diwylliannol Cymru yn aruthrol a bydd Cymru, yn ogystal â'i deulu, yn gweld y golled yn fawr iawn.

# YN GYMRAEG ...
# YNG NGHAERDYDD A'R FRO

## Cyfeiriadur i Weithgareddau
## Cymraeg Caerdydd a'r Fro

### ~ MEDI 1998 ~

Cyfeiriadur yw hwn a ddatblygwyd yn wreiddiol, trwy gydweithrediad rhwng CYD: De Morgannwg, Cwmni Surrexit a'r *Dinesydd*, i gyd-fynd â'r ŵyl lwyddiannus *Yn Gymraeg ... Yng Nghaerdydd a'r Fro*, a drefnwyd gan CYD: De Morgannwg yn Neuadd Dewi Sant yn Ionawr 1993.

Diwygiwyd y Cyfeiriadur yn drwyadl yn 1996 gan Ysgrifennydd Pwyllgor *Y Dinesydd*, Mrs Julie Jones, ac oddi ar hynny y mae wedi ymddangos yn flynyddol fel atodiad yn rhifyn Medi o'r *Dinesydd*.

Yn 1997 rhoddwyd y Cyfeiriadur ar safle'r *Dinesydd* ar y We Fyd-Eang. Cyfeiriad y safle yw:
**http://ds.dial.pipex.com/town/parade/ow12/**
Peter Bradley sydd yn gyfrifol am gynnal safle'r *Dinesydd* ar y We ac am unrhyw gywiriadau neu ychwanegiadau i'r Cyfeiriadur hwn. Felly, os bydd unrhyw un am ddiwygio manylion cofnod neu ychwanegu cofnod newydd, dylid cysylltu ag ef rhag blaen. Ei gyfeiriad yw Cefn Derw, 117 Oakridge, Y Ddraenen (*Thornhill*), Caerdydd CF4 9BY (Ffôn: 01222 763426).

## ADDYSG

### MEITHRIN

*MEITHRINFA*
Yr unig feithrinfa ddyddiol Gymraeg yng Nghaerdydd yw:
**Si-lwli**
71 Ffordd Romilly, Treganna, Caerdydd CF5 2FL
Cyswllt: Ruth Parry
Ffôn: 01222 667076
Llun-Gwener 8.00am-6.00
(51 wythnos y flwyddyn)

**MUDIAD YSGOLION MEITHRIN**
Prif Swyddfa: 145 Albany Road, Caerdydd.
Ffôn: 01222 485510

*CYLCHOEDD MEITHRIN CAERDYDD*

Cyswllt ar gyfer cylchoedd meithrin a chylchoedd 'Ti a Fi' Caerdydd:
Chris Jones, Swyddog Datblygu Caerdydd, ar 01222 464091.

**Adamsdown**
Cylch Meithrin yr Hen Gapel,
Canolfan Gymunedol Adamsdown,
Metal Street, Adamsdown CF2 1JY
Llun-Gwener 9.30-12.30
**Caerau**
Eglwys Saintwell, Heol Trelái
Mawrth-Gwener 9.30-12.00
Mercher, Iau 12.30-2.30
**Yr Eglwys Newydd**
Eglwys Sant Teilo, St. Mary's Road.
Llun-Gwener 9.15-12.00
**Glanyrafon**
Eglwys y Methodistiaid, Machen Place, Glanyrafon
Llun-Gwener 9.30-12.30
**Llaneirwg**
Canolfan Addysg Gymunedol,
Crickhowell Rd., Llaneirwg
Llun, Mawrth, Mercher, Gwener 9.00-12.00
**Llanisien**
Cylch Meithrin yr Hen Ysgol
Old School Annexe, Llwynypia Rd, Llys-faen
Llun-Gwener 9.00-12.00
**Llanrhymni**
Canolfan Ieuenctid Cae Castell, Llanrhymni
Llun, Mercher, Gwener 9.15-12.15
**Nant Lleucu**
Canolfan Howardian, Pen-y-lan
Llun-Gwener 9.30-12.00
**Y Parc**
Capel Salem, Market Rd., Treganna
Llun-Gwener 9.10-11.40
Mawrth, Mercher, Iau, Gwener 1.00-3.00
**Pontcanna**
Canolfan yr Urdd, Heol Conwy.
Llun-Gwener 9.00-12.00
**Pentre-baen**
Canolfan Ieuenctid Waterhall,
Pentrebane Rd., Tyllgoed
Llun-Gwener 9.30-12.00
Llun, Mawrth, Iau 1.00-3.00
**Pen-twyn**
Canolfan Addysg i Oedolion, Pen-twyn
Mawrth, Iau, Gwener 9.15-12.15
**Radur**
Old Church Rooms, Park Rd., Radur
Llun-Iau 9.15-12.00
**Rhiwbina**
Neuadd Capel Bethel, Heol Maes y Deri
Llun-Gwener 9.00-12.00
Mercher-Gwener 1.00-3.00
**Treganna**
Canolfan Gymunedol Treganna
Llun-Gwener 9.30-12.00
Llun-Gwener 1.00-3.00
**Trelái**
Bowling Green, Mill Rd., Trelái
Llun-Gwener 9.30-12.30
Llun a Mawrth 1.00-3.00
**Tŷ Coch**
Eglwys y Bedyddwyr,
Cylchdro Archer Rd., Trelái
Llun-Gwener 1.00-3.15
**Tŷ'r Cymry**
11 Heol Gordon, Y Rhath
Llun, Mawrth, Iau, Gwener 9.00-12.00
Llun, Mawrth, Iau 1.00-3.00
**Tyllgoed**
Community Suite, Canolfan Hamdden Tyllgoed
Llun-Gwener 9.15-12.00
**Y Waun**
Heath Citizens Hall, King George V Drive, Parc y Mynydd Bychan
Llun, Mawrth, Iau, Gwener 9.30-12.00
**Ystum Taf**
Canolfan Ieuenctid, Bridge Road, Ystum Taf
Llun, Mawrth, Iau, Gwener 9.30-12.00
**Cylch y Bronllwyn**
Neuadd y Pentref, Pen-tyrch
Llun-Iau 9.30-12.00
**Cylch Meithrin Creigiau**
Canolfan Criced, Creigiau
Llun-Gwener 9.30-12.00
**Cylch Meithrin Gwaelod-y-garth**
Festri Capel Bethlehem
Main Road, Gwaelod-y-garth
Llun-Gwener 9.15-12.00
Clwb Meithrin Llun-Gwener 1.00-3.00

*CYLCHOEDD MEITHRIN Y FRO*

Cyswllt ar gyfer cylchoedd meithrin a chylchoedd 'Ti a Fi' y Fro:
Maryl Richards, Swyddog Datblygu Bro Morgannwg, ar 01656 653084.

***Llandŵ**
Neuadd y Pentref, Llandŵ
Cylch 'Ti a Fi'
Unwaith yr wythnos
**Llanilltud Fawr**
Annexe yr Hen Ysgol, Llanilltud Fawr
Llun-Gwener 9.30-12.00
***Y Bont-faen**
Drws nesaf i Ysgol Iolo Morganwg
Llun-Gwener 9.00-12.00

***Y Barri***
**Bethesda**, Gerddi Alexandra
Llun-Gwener 9.15-12.15
Llun, Mawrth, Gwener 12.45-3.00
**Heol y Llys**, YMCA, Court Rd.
Llun-Gwener 9.45-11.45
**Merthyr Dyfan**
Neuadd Hamdden Holme View, Skomer Rd.
Llun-Gwener 9.15-11.45
**Plant Hapus**
Neuadd St. Nicholas, St. Nicholas Rd.
Llun-Gwener 9.30-12.00
**Capel y Tabernacl,** Sgwâr y Brenin
Llun-Gwener 9.30-12.00
**Cylch Tregatwg**
Canolfan Gymunedol Parc Victoria
Llun-Gwener 9.30-12.00

**Cylch y Rhws**
Ystafelloedd Newid y Meysydd Chwarae, Heol Ceri
Mawrth-Gwener 9.30-12.00
***Dinas Powys**
Neuadd Kynance
Llun, Mercher, Gwener 9.15-11.45
Prynhawn Iau - plant hŷn

***Penarth***
Capel Bethel, Plassey Street
Llun-Gwener 9.30-12.00
***Yr Enfys**
Neuadd Gymuned Glyndŵr
Llun-Gwener 9.30-12.00

(* = Cylch 'Ti a Fi')

## CYNRADD

**Ysgol Bro Eirwg**
Ridgeway Rd., Tredelerch, Caerdydd
Ffôn: 01222 777124
**Pennaeth**: Glyn Evans

**Ysgol Gymraeg Coed y Gof**
Beechley Drive, Pentre-baen, Caerdydd
Ffôn: 01222 564585
**Pennaeth**: Arwel Peleg Williams

**Ysgol Iolo Morganwg**
Broadway, Y Bont-faen
Ffôn: 01446 772358
**Pennaeth**: Alan W. Jones

**Ysgol Gymraeg Melin Gruffydd**
Erw Las, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd
Ffôn: 01222 691247
**Pennaeth**: Mair Robins

**Ysgol Mynydd Bychan**
New Zealand Rd., Y Mynydd Bychan, Caerdydd
Ffôn: 01222 613417
**Pennaeth**: Ann Williams

**Ysgol Pen-cae**
Highfields, Llandaf, Caerdydd
Ffôn: 01222 563851
**Pennaeth**: Eleri Jones

**Ysgol Sant Curig**
Ffordd y Coleg, Y Barri
Ffôn: 01446 420109
**Pennaeth**: Eleri Hourahane

**Ysgol Gymraeg Treganna**
Radnor Road, Treganna, Caerdydd
Ffôn: 01222 383887
**Pennaeth**: Rhys Harries

**Ysgol y Wern**
Ffordd Llangrannog, Llanisien, Caerdydd
Ffôn: 01222 762114
**Pennaeth**: Glesni Whettleton

**Ysgol Pwll-coch**
Rhodfa Lawrenny, Lecwydd, Caerdydd
Ffôn: 01222 373453
**Pennaeth**: Anna Roberts

**Ysgol Creigiau**
Creigiau, Caerdydd
Ffôn: 01222 891045
**Pennaeth**: Peter Evans

**Ysgol Gynradd Gwaelod-y-garth,**
Main Rd., Gwaelod-y-garth, Caerdydd
Ffôn: 01222 810489
**Pennaeth**: Gerwyn Williams

**Ysgol Gymraeg Pen-y-garth**
Heol Redlands, Penarth
Ffôn: 01222 700262
**Pennaeth**: Peter Davies

**Ysgol Gymraeg Sant Baruc**
St. Paul's Avenue, Y Barri
Ffôn: 01446 735595
**Pennaeth**: Dulyn Griffiths

**Ysgol Gymraeg Newydd y Barri**
Ffordd Buttrills, Y Barri
**Pennaeth**: Glenna Evans

## UWCHRADD

**Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf**
Heol y Bont, Ystum Taf, Caerdydd CF4 2JL
Ffôn: 01222 333090
**Prifathro**: Huw Thomas

**Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr**
Ffordd Pentre-baen, Tyllgoed, Caerdydd CF5 3PZ
Ffôn: 01222 405499
**Prifathro**: Geraint Rees

# CAPELI AC EGLWYSI

**Bethel, Rhiwbina (Methodistiaid)**
Maes y Deri, Rhiwbina, Caerdydd
**Gweinidog**: Parchg. D. Haydn Thomas
Ffôn: 01222 212760
Oedfa: 10.15 am. Ysgol Sul: 10.15 am
Clwb Ieuenctid: Nos Iau, 7.30 pm

**Bethel, Penarth (Annibynwyr)**
Stryd Plassey, Penarth
Ffôn: 01222 563219
Oedfa: 10.30 am a 6 pm
Ysgol Sul: 11.30 am

**Bethlehem, Gwaelod-y-garth (Annibynwyr)**
**Gweinidog**: Parchg. Ddr T.J. Davies
Ffôn: 01222 843750
Oedfaon: 10.30am (a 5pm weithiau)

**Capel y Crwys (Presbyteriaid)**
Heol Richmond, Caerdydd
**Gweinidog**: Parchg. W.I. Cynwil Williams
Ffôn: 01222 486457
Oedfaon: 10.30 am a 6 pm
Ysgol Sul: 11am a 11.30 am

**Dewi Sant (Yr Eglwys yng Nghymru)**
Cilgant Sant Andreas, Caerdydd
**Ficer**: Parchg. Aled Edwards
Ffôn: 01222 751418
Oedfaon: 10.30 am a 6 pm

**Ebeneser (Annibynwyr)**
29 Heol Siarl, Caerdydd
**Gweinidog**: Parchg. Ddr Alun Tudur
Ffôn: 01222 490582
Oedfaon: 10.30 am a 6 pm
Ysgol Sul: 11.15 am

**Yr Eglwys Efengylaidd Gymraeg**
Rhymney St., Cathays
**Gweinidog**: Parchg. Gwynn Williams
Ffôn: 01222 490687
Oedfaon: 10 am a 6 pm
Ysgol Sul: 11.30 am

**Yr Eglwys Undodaidd**
West Grove, Caerdydd
**Gweinidog**: Parchg. Eric Jones
Ffôn: 01685 873440
Oedfaon: 3.30 pm ar yr ail Sul o'r mis

**Capel Minny Street (Annibynwyr)**
Y Waun Ddyfal, Caerdydd
**Gweinidog**: Parchg. Ieuan Davies
Ffôn: 01222 763251
Oedfaon: 10.30 am a 6 pm
Ysgol Sul yn ystod yr oedfa foreol

**Salem (Presbyteriaid)**
Stryd y Farchnad, Treganna
**Gweinidog**: Parchg. D. Haydn Thomas
Ffôn: 01222 212760
Oedfaon: 10.30 am a 6 pm

**Tabernacl (Bedyddwyr)**
Yr Ais, Caerdydd
**Gweinidog**: Parchg. Denzil John
Ffôn: 01222 867769
Oedfaon: 10.30 am a 6 pm
Ysgol Sul: 11.30 am

**Tabernacl, Y Barri (Annibynwyr)**
Sgwâr y Brenin, Y Barri
**Gweinidog**: Parchg. Beti-Wyn James
Ffôn: 01446 700121
Oedfaon: 11am a 6pm (4pm yn y gaeaf)

**Ysgol Sul Tabernacl, Yr Eglwys Newydd**
**Cyswllt**: Moelwyn Preece
Ffôn: 01222 611059
Ysgol Sul Gymraeg am 2.30 pm

## CHWARAEON

**Clwb Cadw'n Heini**
**Cyswllt**: Eirug Jenkins
Ffôn: 01222 616501
**Cyfarfod**: Nos Lun o fis Medi ymlaen yn Ysgol Gyfun Glantaf

**Clwb Criced Ifor Bach**
Clwb Ifor Bach, Stryd Womanby, Caerdydd
Ffôn: 01222 232199
**Cyswllt**: Robin Hughes
Ffôn: 01222 493808 / 232199

**Clwb Cymric (Pêl-droed)**
**Cyswllt**: Rhys Roberts
**Cyfarfod**: Bob dydd Sadwrn ar ôl y gemau, Clwb Cameo, Pontcanna

**Clwb Nofio'r Cymry**
(i blant yn unig)
**Cyswllt**: Gaynor C Jones
Ffôn: 01222 627668
**Cyfarfod**: Nos Fawrth yn Ysgol Uwchradd yr Eglwys Newydd

**Clwb Rygbi Cymraeg Caerdydd**
**Cyswllt**: John Hayes
Ffôn: 01222 382760
**Cyfarfod**: Bob nos Lun am 7pm a nos Fercher am 6.30pm yn Ysgol Uwchradd Fitzalan

**Clwb Rygbi Ieuenctid Caerdydd**
**Prif Hyfforddwr**: Huw Jones
Ffôn: 01222 842811
Amcanion: Clwb rygbi i blant 7-15 oed
**Cyfarfod**: Bore Sadwrn, 11.00 tan 12.00 ar feysydd Ysgol Plasmawr, Tyllgoed

**Cymdeithas Golff y Ddinas**
**Cyswllt**: Ceri Preece ar 01222 224871 est. 2228 neu Dafydd Hampson-Jones ar 01222 394021
**Cyfarfod**: Cwrdd 3/4 gwaith y flwyddyn ar gyrsiau gwahanol.

## CYMRAEG I OEDOLION

**Adran Addysg Barhaol**
Prifysgol Caerdydd, 38 Heol y Parc, Caerdydd CF1 3BB
Ffôn: 01222 874831/2
**Cyswllt**: Dr Gwenllian Awbery
Amcanion: Trefnu dosbarthiadau addysg oedolion, gan gynnwys Cymraeg fel ail iaith ar bob lefel.

**Awdurdod Addysg Caerdydd**
Cyrsiau i ddysgwyr o bob safon mewn amrywiol ganolfannau ledled y sir.
**Cyswllt**: Nigel Ruddock
Ffôn: 01222 250439

**Canolfan Dysgu Cymraeg**
Prifysgol Caerdydd
42 Heol y Parc, Caerdydd CF1 3DQ
**Cyswllt**: Dr Robert Owen Jones
Ffôn: 01222 874710
Amcanion: Dysgu cyrsiau dwys ac uwch. Ceir rhaglen gynhwysfawr o gyrsiau bob dydd o'r wythnos trwy gydol y flwyddyn, a chyrsiau preswyl a hyfforddi athrawon.

**Canolfan Iaith Acen**
Tŷ Ifor, 1 Stryd y Bont, Caerdydd
**Cyswllt**: Sian Merlys
Ffôn: 01222 665455
Amcanion: Dysgu cyrsiau o bob safon i oedolion. Clwb bob dydd Sadwrn am 11.00-2.00 ar gyfer ymarfer Cymraeg.

**Canolfan yr Urdd**
Heol Conwy, Pontcanna, Caerdydd
Ffôn: 01222 513046
**Cyfarfod**: Gwersi Cymraeg ar nos Lun 7-9 pm a dydd Iau 1-3 pm.

**Cell Caerdydd Cymdeithas yr Iaith Gymraeg**
Tŷ'r Cymry, 11 Heol Gordon, Y Rhath, Caerdydd CF2 3AJ
**Cyswllt**: Robert ap Tomos
Ffôn: 01222 486469
Amcanion: Dysgu Cymraeg ar bob lefel. Cyrsiau dwys i ddechreuwyr ac i ddysgwyr mwy profiadol ddwywaith y flwyddyn ynghyd â digwyddiadau cymdeithasol drwy gydol y flwyddyn.

**Cymdeithas Addysg y Gweithwyr (WEA)**
**-Clwb Coffi Treganna**
Canolfan yr Urdd, Heol Conwy
Bob dydd Gwener 1.00-3.00
**-Clwb Coffi Clwb Ifor Bach**
Stryd Womanby, Caerdydd
Bob dydd Mercher 12.00-2.00
**-Clwb Coffi y Fro**
Coleg Cymunedol y Bont-faen
Bob yn ail ddydd Mawrth 12.30-2.00
**-Clwb Coffi y Barri**
Canolfan Palmerston, Y Barri
Bob bore Gwener 9.45-11.45
**Cyswllt**: Christine Franks
Ffôn: 01222 513046

**CYD Caerdydd a'r Fro**
Amcanion: Dod â Chymry Cymraeg a dysgwyr at ei gilydd.
**Gwesty Parc y Rhath**, Lôn y Plwca (*City Road*), Y Rhath, Caerdydd
**Cyswllt**: Gareth Kiff
Ffôn: 01222 486469
**Cyfarfod**: Bob nos Iau o 9.15 pm ymlaen tan stop-tap.

**Tafarn y Conwy**, Treganna, Caerdydd
**Cyswllt**: Dafydd Bridle
Ffôn: 01222 736600
**Cyfarfod**: Bob nos Fawrth 7.30-9.30pm

**Tafarn y Tavistock**, Stryd Bedford (ger Lôn y Plwca - *City Road*), Y Rhath
**Cyswllt**: Gareth Kiff
Ffôn: 01222 486469
**Cyfarfod**: Bob nos Fercher o 9pm ymlaen

**Tafarn y 'Pen and Wig'**, oddi ar Column Rd.
**Cyswllt**: Rhobat neu Richard
Ffôn: 01222 390980 / 874710

**CYD Pobl y Bont**
**Cyswllt**: Jeanne Crabb
Fflat 1, Tŷ Woodstock, Y Stryd Fawr, Y Bont-faen CF7 7AF
Ffôn: 01446 774452
**Cyfarfod**: Dydd Gwener yn Y Dug (*Duke of Wellington*) 12.00-2.00
Dydd Mawrth mewn gwahanol dai am 10.00-12.00. Grŵp sgwrsio anffurfiol. Gwibdeithiau. Wedi ei anelu at ddysgwyr a Chymry Cymraeg.

**YMCA Caerdydd**
Y Rhodfa, Caerdydd CF2 3AG
Ffôn: 01222 489101
**Cyswllt**: Maureen Ireland
Amcanion: Cymdeithas Gristnogol â pholisi cadarnhaol er hybu'r Gymraeg. Dosbarthiadau Cymraeg i bob lefel.

## GRWPIAU PWYSO

**Cell Caerdydd Cymdeithas yr Iaith Gymraeg**
Tŷ'r Cymry, 11 Heol Gordon, Y Rhath, Caerdydd CF2 3AJ
**Cyswllt**: Paul Leonard
Ffôn: 01222 452168
Amcanion: Ymgyrchu dros gyfartaledd i'r Gymraeg a dwyieithrwydd naturiol.
**Cyfarfod**: Cyfarfodydd Cell yn fisol ar nos Sul yn Nhŷ'r Cymry.

**Rhieni Dros Addysg Gymraeg**
Amcanion: Hybu tyfiant addysg gyfrwng-Gymraeg:

**Cangen Caerdydd**
**Cyswllt**: Delyth Evans
Ffôn: 01222 621266
Cyfarfod yn fisol yn ystod y flwyddyn ysgol.

**Cangen y Fro**
**Cyswllt**: Carys Hall
Ffôn: 01446 721236
Cyfarfod yn fisol yn ystod y flwyddyn ysgol.

**Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru Cymdeithas Sir Caerdydd**
**Cyswllt:** Jenni Jones-Annetts (Ysgrifennydd)
Maen-y-Mynach, 44 South View Drive, Tredelerch, Caerdydd CF3 8LY
Ffôn: 01222 794984

## HAMDDEN

**Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd**
**Cyswllt**: Idwal Hughes
Ffôn: 01222 623873
**Cyfarfod**: Bob yn ail brynhawn Mercher am 2.00 pm yn festri Capel Minny Street. Trefnir cludiant mewn bws mini. Siaradwyr a gweithgareddau gwahanol.

**Clwb Gwawr Caerdydd**
**Cyswllt**: Bethan Anwyl
Ffôn: 01222 383232
**Cyfarfod**: Mewn gwahanol leoedd ar nos Iau olaf pob mis o Fedi i Orffennaf. Clwb i ferched. Amrywiol weithgareddau.

**Clwb Gwawr Radur**
**Cyswllt:** Bethan Cartwright
Ffôn: 01222 843422
**Cyfarfod:** Nos Iau gyntaf y mis.
Gweithgareddau amrywiol.

**Clwb Ifor Bach**
11 Stryd Womanby, Caerdydd CF1 2BR
Ffôn: 01222 232199
Amcanion: Clwb cymdeithasol Cymraeg i aelodau cofrestredig. Ar agor bob penwythnos.
Cymdeithasau amrywiol.

**Côr Caerdydd**
**Cyswllt**: Gwawr Owen
Ffôn: 01222 691924
**Cyfarfod**: Nos Fercher am 8.00 pm yng Nghanolfan yr Urdd, Heol Conwy.

**Côr Godre'r Garth**
**Cyswllt**: Penri Williams
Ffôn: 01222 890040
**Cyfarfod**: Nos Sul am 7.30 pm yn Neuadd y Pentre, Efailisaf.

**Côr Merched Canna**
**Cyswllt**: Delyth Medi Jones ar 01222 619934 neu Elspeth Hughes ar 01222 554663
**Cyfarfod**: Nos Lun am 7.45 pm yn festri Capel Salem, Treganna.

**Côr Merched y Garth**
**Cyswllt**: Eleri Roberts
Ffôn: 01443 208211
**Cyfarfod**: Nos Iau am 7.30 pm yng Nghapel Efailisaf.

**Cwlwm Busnes Caerdydd a'r Cylch**
**Cyswllt**: Dafydd Hampson Jones
Ffôn: 01222 394021
**Cyfarfod**: 5/6 gwaith y flwyddyn yn Churchills. Siaradwr gwadd. Ciniawa anffurfiol bob mis.

**Cwmni Dawns Werin Canolfan Caerdydd**
**Cyswllt**: Ann Martin
Ffôn: 01222 492440
**Cyfarfod**: Nos Iau am 7.30 pm yng Nghanolfan yr Urdd, Heol Conwy.

**Cwmni Drama'r Crwys**
**Cyswllt**: Bob Roberts
Ffôn: 01222 627903
**Cyfarfod**: Nos Fercher am 7.30 pm. yng Nghapel y Crwys, 77 Heol Richmond.

**Cwmni Drama'r Gadwyn, Radur**
**Cyswllt**: Philip Wyn Jones
Ffôn: 01222 565998
**Cyfarfod**: Mannau ymarfer yn amrywio. Perfformiadau yn Ysgol Gyfun Radur.

**Cwmni'r Gwter**
**Cyswllt**: Terence Lloyd/Gwawr Davies
Ffôn: 01222 484083 / 692960
Amcanion: Gweithdy drama i blant.
**Cyfarfod**: Nos Lun o 4.30 - 8.30pm a nos Iau o 4.30 - 8.30pm yng Nghanolfan yr Urdd, Heol Conwy.

**Cylch Cinio Cymraeg Caerdydd**
**Cyswllt**: Tony Couch
Ffôn: 01222 753625
**Cyfarfod**: Nos Lun gyntaf pob mis ac eithrio Awst a Medi. Siaradwyr gwadd.

**Cylch Cinio Merched Caerdydd**
**Cyswllt**: Valmai Evans
Ffôn: 01222 612104
**Cyfarfod**: Pum cyfarfod blynyddol ar yr ail nos Iau ym misoedd Medi, Tachwedd, Ionawr, Mawrth a Mai am 7.00 pm.
Cinio tri chwrs a siaradwr gwadd.

**Cylch Cinio y Barri a'r Fro**
**Cyswllt**: Islwyn Jones
Ffôn: 01222 594533
**Cyfarfod**: Gwesty Mount Sorrell nos Fercher ola'r mis am 7.30 pm.
Cymdeithasu. Siaradwyr gwadd.

**Cylch Llyfryddol Caerdydd**
**Cyswllt**: E Wyn James
Ffôn: 01222 628754
Amcanion: Hybu diddordeb ym mhob agwedd ar fyd llyfrau.
**Cyfarfod**: Yn fisol rhwng Medi a Mawrth ar drydedd nos Wener y mis am 7.00 pm.

**Cymdeithas Cymrodorion Caerdydd**
**Cyswllt**: Parchg. Ifor Rees
Ffôn: 01222 625785
**Cyfarfod**: Nos Wener gyntaf y mis o Hydref tan Fai ac eithrio Ionawr.

**Cymdeithas Cymrodorion y Barri**
Eglwys Annibynnol Gymraeg y Barri, Sgwâr y Brenin, Y Barri
**Cyswllt**: Elsie Avery
Ffôn: 01446 732203
**Cyfarfod**: Yn festri'r Capel ar drydedd nos Fawrth y mis am 7.15 pm, Medi - Meh.

**Cymdeithas Cymry'r Eglwys Newydd**
**Cyswllt**: Megan Williams
Ffôn: 01222 628733
**Cyfarfod**: Ail nos Wener y mis o fis Hydref tan fis Mawrth yn neuadd Capel Bethel, Yr Eglwys Newydd.

**Cymdeithas Cymry'r Wenallt**
**Cyswllt**: John Rees
Ffôn: 01222 482922
**Cyfarfod**: Ail nos Wener y mis am 8.00 pm yng Nghlwb Rygbi'r Eglwys Newydd o fis Hydref tan fis Mai. Cymdeithas i ddynion.

**Cymdeithas Gymraeg Penarth**
**Cyswllt**: Parchg. Maxwell Evans
Ffôn: 01222 701963
**Cyfarfod**: Bob nos Fercher gyntaf y mis o Hydref tan Fai yng Nghapel Bethel, Heol Plassey, Penarth.

**Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina**
**Cyswllt**: E. Haydn Jones
Ffôn: 01222 620487
**Cyfarfod**: Nos Lun gynta'r mis yn Neuadd Eglwys Bethany, Heol Llanisien Fach, Rhiwbina.

**Cymdeithas Gymraeg Dinas Powys a'r Cylch**
**Cyswllt:** Gerwyn Williams
Ffôn: 01222 512016
**Cyfarfod:** Neuadd Eglwys Sant Pedr, Dinas Powys, ar ddydd Llun cyntaf pob mis (Medi - Mai) am 7.30pm.

**Cymdeithas Wyddonol Caerdydd**
**Cyswllt**: Gwen Jones ar 01222 563914 neu Rhys Morris ar 01222 666120
Amcanion: Hybu dealltwriaeth a mwynhad o wyddoniaeth ymhlith lleygwyr a gwyddonwyr.
**Cyfarfod**: Ail neu drydedd nos Lun y mis o Hydref tan Fai am 7.30 p.m. ym Mhrif Adeilad Prifysgol Caerdydd.

**Merched y Wawr, Bro Radur**
**Cyswllt**: Heulwen Jones
Ffôn: 01222 842811
**Cyfarfod**: Nos Fercher gynta'r mis o Fedi hyd Fehefin yn Neuadd y Methodistiaid, Ffordd Windsor, Radur.

**Merched y Wawr, Caerdydd**
**Cyswllt**: Ceinwen Elias
Ffôn: 01222 759291
**Cyfarfod**: Yng Nghapel Minny Street, Caerdydd ar ail nos Lun y mis o Fedi i Fehefin/Gorffennaf. Un noson y flwyddyn ar gyfer dysgwyr.

**Merched y Wawr, Llanbedr y Fro**
**Cyswllt**: Audrey Lake
Ffôn: 01222 593776
**Cyfarfod**: Trydydd nos Fawrth y mis yn Festri Bethania, Pendeulwyn.

**Merched y Wawr, Y Barri**
**Cyswllt**: Nan Rees
Ffôn: 01222 554555
**Cyfarfod**: Nos Fawrth gyntaf pob mis Hydref- Ebrill yn Ysgol Sant Curig, Y Barri.

**Merched y Wawr, Y Bont-faen**
**Cyswllt**: Delyth Davies
Ffôn: 01446 772594
**Cyfarfod**: Ail nos Lun y mis yn Neuadd y Dref, Y Bont-faen

**Merched y Wawr, Y Garth**
**Cyswllt**: Viera Jones
Ffôn: 01222 891446
**Cyfarfod**: Ail nos Fercher y mis yn Neuadd Bentref Pen-tyrch

**Twrch Trwyth (Dawnsio Gwerin)**
**Cyswllt**: Dewi Rhisiart
Ffôn: 01222 344805
**Cyfarfod**: Nos Lun am 7.30 pm. yng Nghlwb Ifor Bach, 11 Stryd Womanby, Caerdydd.

**Urdd Gobaith Cymru**
Canolfan yr Urdd, Heol Conwy, Pontcanna, Caerdydd CF1 9NT
Ffôn: 01222 236201
**Cyswllt**: Siân Lewis
**Dydd Llun:**
6 pm - 7 pm Adran yr Urdd, Llandaf
**Dydd Gwener:**
5 pm - 6 pm Clwb Gymnasteg yr Urdd
5.30 pm - 6.30 pm Clwb Dawnsio 7-14 oed
**Dydd Sadwrn:**
9 - 10 am Clwb Pêl-droed yr Urdd, Bl. 1 a 2
10 - 11 am Clwb Pêl-droed yr Urdd, Bl. 3-6 (ar Gaeau Llandaf)
10 - 11 am Clwb Pêl-rwyd yr Urdd

# YSGOL GLANTAF

## Atgofion am Lyfrgell Ysgol Glantaf

*Ni bu Mr Iwan Jones yn segur, a dweud y lleiaf, wedi iddo ymddeol yn 'swyddogol' bedair blynedd ar ddeg yn ôl, oherwydd yn ogystal â'i waith fel ysgrifennydd Eglwys Minny Street ac amryfal gymwynasau eraill, bu'n cynorthwyo'n gyson yn llyfrgelloedd Ysgol Glantaf, a hynny'n hollol wirfoddol. Gwerthfawrogwyd ei waith a'i gyngor yn fawr iawn dros y blynyddoedd gan y staff a'r disgyblion, ac fel arwydd o werthfawrogiad yr ysgol, cyflwynodd Mr Huw Thomas, y prifathro, siec i Mr Jones ar ddiwedd tymor yr haf, wrth iddo 'ymddeol' am yr ail waith. Dyma Iwan Jones i sôn ychydig am ei gyfnod yn llyfrgellydda yng Nglantaf:*

Wedi i mi ymddeol o'm gwaith fel athro, llyfrgellydd a threfnydd adnoddau yn Ysgol Lewis, Pengam ar ddiwedd tymor yr haf 1984, dyma Ann Saer, a oedd â gofal y llyfrgell yn Ysgol Glantaf bryd hynny, yn gofyn am help i dacluso'r llyfrgell. 'Fe fyddi di wedi gorffen mewn pythefnos,' meddai - a dyma fi yn ymddeol yn 1998 am yr eildro, bedair blynedd ar ddeg wedi cais Ann! Cyfle priodol i ddweud ffarwel nawr, pan fydd dwy ysgol gyfun Gymraeg yn y ddinas ym mis Medi 1998 - Glantaf a Phlasmawr.

'Doedd 'na fawr o siâp ar bethau yn 1984 a'r ysgol wedi etifeddu llyfrgell yr hen ysgol fodern, ond yn raddol fe gasglwyd nifer da o lyfrau darllen, llyfrau gwybodaeth a llyfrau cyfair ynghyd, yn Gymraeg a Saesneg. Ac yna, a rhif y disgyblion ar gynnydd mor gyflym, fe drefnwyd i blant y ddwy flynedd gyntaf ymgartrefu yn hen Ysgol Waterhall. Pan symudon ni 'doedd 'na'r un llyfr na'r un silff ddiogel yno, ond ymhen fawr o amser roedd casgliad teilwng gyda ni.

Mawr yw diolch llyfrgelloedd Glantaf i rieni ac i Gymry Caerdydd a'r cyffiniau ar hyd y blynyddoedd am roddion hael o lyfrau, yn enwedig yn y Gymraeg - weithiau'n becyn bach, weithiau'n llawer mwy, hyd at gymynrodd y diweddar Ddr. Alun B. Oldfield-Davies o fwy na dwy fil o lyfrau, fel bod casgliad rhagorol o lyfrau Cymraeg a llyfrau'r 'Eingl-Gymry' gyda ni.


Oherwydd natur ei swydd yn y BBC ac oherwydd ei gylch eang o gyfeillion ym myd addysg a llenyddiaeth, byddai Alun Oldfield yn derbyn copi newydd-ei-gyhoeddi oddi wrth y bobl hyn yn gyson, a byddent yn cyflwyno'r cyfrolau iddo ar yr wyneb-ddalen - pobl fel Aneirin Talfan Jones, Glanmor Williams, T. Rowland Hughes, A.G. Prys-Jones, Kate Roberts, ac yn y blaen. Byddai T. Rowland Hughes, er enghraifft, yn ei gyfarch â phennill, eraill, megis Kate Roberts, mewn llythyr, ac fe drysorir y cyfrolau hyn gan yr ysgol.

Hoffwn ddiolch i Marion Wynne, Eleri Jones, Rhian Griffiths, Siân Osborne a llyfrgellydd newydd Glantaf, Lis Williams, am eu croeso a'u cefnogaeth frwd a'u cymorth parod bob amser. Ond gweld eisie'r plant fydda' i fwya' - o'r crwt bach oedd yn chwilio heb ddiddordeb am lyfr ac mewn ateb i'm cwestiwn, 'Pa fath o lyfre wyt ti'n hoffi?' atebodd, 'Rhai tene', hyd at y ferch fach un ar ddeg oed, newydd ddod o'r ysgol gynradd, a holodd, "Oes copi o *Crime and Punishment* 'da chi, plis?" "Wyt ti'n siŵr mai nofel Dostoevsky wyt ti eisie? 'Dyw e ddim yn llyfr hawdd," meddwn i. "O fe ges i'r flas rhyfedda ar *War and Peace*", meddai hi! Ga' i ddymuno pob llwyddiant a phob dymuniad da i ddyfodol y ddwy ysgol a'u llyfrgelloedd.

*Iwan Jones*

## Her Rover

Noddwyd cyfadran Ysgol Glantaf eleni eto gan gwmni 'Howells Caerdydd' ar gyfer 'Her Rover' (*Rover Challenge*). Pwrpas yr her a noddir gan gwmni ceir 'Rover' yw annog disgyblion i astudio Technoleg ac ystyried gyrfa ym maes Peirianneg. Ers i'r her ddechrau ym 1989 mae dros 100,000 o ddisgyblion wedi cymryd rhan ynddi. Darparwyd 'go-kart' gan Howells a'r her i'r disgyblion oedd ei ddatblygu a'i wella. Roedd y gwaith hwn yn rhan o gwrs Technoleg TGAU y disgyblion.



*O'r chwith:* Haydn Pritchard (athro Technoleg), Aled Guy (16), Rhys Davis (16), Catrin Ellis (16), John Petty (pennaeth Technoleg), Rhys Woosnam (16), Rhian Williams (16).
*Yn sefyll:* Ken Gough (Rheolwr Gwasanaethau Howells, Caerdydd). *Yn eistedd:* Siân Harries (16).

Yn y gystadleuaeth i ranbarth Cymru a de-orllewin Lloegr Ysgol Glantaf a enillodd y categori i ysgolion. Diolchodd Haydn Pritchard, un o athrawon Technoleg yr ysgol, i gwmni 'Howells' am eu cymorth ymarferol ac am ganiatáu i'r disgyblion ddefnyddio'u gweithdai. Haydn Pritchard a enillodd ras y 'go-kart' i athrawon, a John Petty, pennaeth yr adran ddaeth yn ail. Siân Harries, un o ddisgyblion Glantaf oedd y disgybl cyflymaf. Daeth yr ysgol hefyd yn drydydd yn y profion amser.

# Gweithgareddau'r Urdd



## Trip Blwyddyn 11 i Lydaw

Ar ôl yr arholiadau TGAU ddechrau mis Gorffennaf, trefnwyd trip campio i Lydaw gan yr Urdd yng Nghaerdydd ar gyfer disgyblion blwyddyn 11 Glantaf. Mynychodd 16 o ddisgyblion y trip 5 diwrnod gan ymweld â threfi Dournanez, Benodet, Concarnau a Quimper.

# Hysbys Cynradd

**Ail ddechrau.....**




### Clwb Pêl-droed yr Urdd

Croeso i blant blynyddoedd 1,2,3,4,5 a 6 ysgolion cynradd Cymraeg Caerdydd.
Cwrdd bob bore Sadwrn ar Gaeau Llandaf, Pontcanna.

☆ ☆ ☆ ☆ ☆ ☆

### Clwb Gymnasteg yr Urdd




Croeso i blant blynyddoedd 4,5 a 6 ysgolion cynradd Cymraeg Caerdydd.

**Am fwy o fanylion, cysylltwch â Siân Lewis yn y Ganolfan (01222) 236201.**

# Hysbys Uwchradd





### Trip 6ed i Ddulyn 26-28 Hydref '98

Mae'r Urdd wedi trefnu trip ar gyfer disgyblion 6ed dosbarth Glantaf, Cwm Rhymni a Gwynllyw i ymweld â Dulyn yn ystod hanner tymor mis Hydref.

Bydd y disgyblion yn aros am dair noson yng nghanol y ddinas gan ymweld ag atyniadau yn y ddinas.

Pris £145, gan gynnwys hedfan o Gaerdydd - Dulyn - Caerdydd, gwely a brecwast mewn YHA 3*.

### Trip blynyddoedd 7 ac 8 i Alton Towers - 30 Hydref '98

Bydd bws yn gadael Canolfan yr Urdd, Heol Conwy, Treganna am 8.30am fore Gwener ac yn dychwelyd o gwmpas 8.30pm.

Croeso i unrhyw ddisgybl o flynyddoedd 7 a 8 ysgolion Glantaf a Phlasmawr. Pris £20 gan gynnwys bws a thocyn mynediad.

### Trip blynyddoedd 7 ac 8 i'r '*Westend*' yn Llundain i weld *GREASE* - 17 Hydref '98

Croeso i flynyddoedd 7 ac 8 ysgolion Glantaf a Phlasmawr. Mae'r trip wedi'i drefnu ar gyfer dydd Sadwrn, 17 Hydref. Pris £21 gan gynnwys bws a thocyn i'r sioe.



## Trip 6ed dosbarth i Amsterdam

Ddiwedd mis Gorffennaf, mynychodd 45 o ddisgyblion dosbarth 6 ysgolion uwchradd Glantaf, Llanhari, Rhydfelen a Chwm Rhymni drip oedd wedi'i drefnu gan yr Urdd i'r Iseldiroedd. Buont yn aros mewn tref ar lan y môr o'r enw 'Noordwijk' gan ymweld ag Amsterdam a Brugges yn ystod y penwythnos. Roedd y trip yn gyfle gwych i ddisgyblion 6ed dosbarth ysgolion cyfun Cymraeg talaith y De-Ddwyrain gymdeithasu a chwrdd â ffrindiau newydd. Mae'r Urdd yn bwriadu trefnu trip arall y flwyddyn nesaf.




# Y CAMPAU dan ofal Thomas Davies




## Criced

### Gaeaf Llwm Sydd o'n Blaenau




Wedi'r tymor torcalonnus yn Ewrop a'r gladdedigaeth yn Ne Affrica ym myd y bêl hirgron, ni chawsom fawr o hwb i'n hysbryd llesg ym myd y bêl fach goch - neu wen -ysywaeth. Newydd gael crasfa gan Swydd Efrog yr oedd Morgannwg pan ysgrifennais y llith ddigysur hon, ac yr oedd perygl mawr na orffennid y tymor yn hanner uchaf y tabl. Tair buddugoliaeth a gafwyd yn y pedair gornest ar ddeg pan oedd y sir yn y pedwerydd safle ar ddeg o'r deunaw: gellir cael rhywfaint o gysur efallai o bwyntiau'r batio lle'r enillwyd 31, â Surrey a Swydd Efrog yn unig uwchben.

Unfed ar ddeg yn rhestr y bowlio oedd Morgannwg y pryd hynny â 45 o bwyntiau, ond rhaid cofio i Steve Watcyn fethu chwarae sawl gwaith oherwydd anaf i gyhyrau ei asennau, ac ni allai Waqar chwarae yn y saith gornest ddiwethaf. Nid yw hi'n debyg y bydd ef yn chwarae dros y sir eto.

Beth bynnag, hyd yn oed os bydd y tymor yn gorffen â Morgannwg yn agos at y gwaelod, gallwn ymlawenhau bod cynifer o chwaraewyr ifainc addawol dros ben gennym. Gwelais Michael Powell yn cael ei 54 yng Nghaerdydd yn yr ail fatiad yn erbyn Swydd Efrog (a chawsai 43 yn y cyntaf), ac fe fatiai'n rymus gan ddewis pryd i daro'n galed gyda'r canlyniad iddo daro deg pedwar pan oedd hi'n o dynn. Cawsai Wayne Law (19 oed) 57 ym matiad cyntaf yr ornest honno, ac ymhlith y bowlwyr, Darren Thomas a ddisgleiriai fwyaf gan gipio naw wiced yn yr ornest, a 62 yn ei 14 gornest yn y Bencampwriaeth. Efe oedd y pedwerydd yn rhestr y siroedd oll ar y pryd.

Prif wendid Morgannwg oedd na allent drechu batwyr o rif saith i ddiwedd y batiad. Llawenheais wrth ddarllen bod Swydd Efrog wedi colli eu chwe wiced gyntaf am 88, er enghraifft, ond gallent sgorio 306 cyn y diwedd. Cafodd yr Albanwr ifanc, Gavin Hamilton, sy'n fowliwr lled gyflym yn bennaf, 79 (ei sgôr uchaf): er cystal bowlio Darren Thomas ac Owen Parkin gwelwyd gwir angen Steve Watcyn y pryd hynny.

## Rygbi



Ar ôl yr haf - cywirach dweud misoedd Mai, Mehefin a Gorffennaf, gan na chawsom haf eleni - llwm fydd hi eto ym misoedd y gaeaf, er bod hyfforddwr o Seland Newydd wrth lyw'r llong genedlaethol. Ni chredaf y medrai Madog hyd yn oed lywio ein llong, ac mae ofn bod yn rhaid imi gyfaddef na wyliaf fawr y tymor hwn; nid af i Wembli pan fydd Cymru'n wynebu holl rym De Affrica Dachwedd 14eg. A af i weld Caerdydd yn chwarae gornestau dibwyntiau yn erbyn prif glybiau Lloegr? Go brin. Mae oes gornestau dibwyntiau wedi hen ddiflannu ysywaeth. Bu 48,500 yn gwylio Caerdydd yn chwarae Casnewydd yn 1951 pan chwaraeai'r ddau'i gilydd bedair gwaith y tymor, ond breuddwyd gwrach yw disgwyl rhyw gyffro mawr yn 1998 pan fydd Caerdydd yn chwarae Wasps neu Newcastle. Fe'm tristawyd yn fawr iawn o glywed bod Caerdydd ynghyd ag Abertawe wedi cefnu arnom, er mai am flwyddyn yn unig fydd hi efallai. Mae bai ar yr Undeb hefyd, ond dylid bod wedi osgoi colli dau o'n clybiau enwocaf rywsut neu'i gilydd; mae'r cynghrair wedi ei diberfeddu'n sicr.

Er 1985 gwelid llun mawr o'r Maes Mawr ar y mur y tu mewn i ddrws ein tŷ ni (anrheg fy nghydweithwyr pan ymddeolais) ond bellach cerdd Waldo, "Cofio", sy'n ei le.

"A erys ond tawelwch i'r calonnau
Fu gynt yn llawenychu a thristau?"

## Pêl-droed

*gan Howard Spriggs*



A ninnau wedi cael fawr o ysbaid o'r gêm oherwydd Cystadleuaeth Cwpan y Byd yn Ffrainc fe wawriodd tymor pêl-droed newydd gyda'i obeithion am dymor gwell na'r llynedd i brif glybiau Cymru.

Mae Ian Rush sy'n 36 oed wedi ymuno â Wrecsam - tybed a ddaw llwyddiant yn sgîl hynny ac esgyn o'r Ail Adran ar ddiwedd y tymor? Siomedig fu'r canlyniadau hyd yn hyn.

Ar y Vetch mae Alan Cork, y rheolwr, wedi'i ddiswyddo a John Hollins (sy â phrofiad helaeth fel chwaraewr a rheolwr) wrth y llyw bellach. Dim ond ychydig o newidiadau fu o ran y chwaraewyr a'r rheolwr am bwyso a mesur cyn gwneud newidiadau os bydd eu hangen.

Yng Nghaerdydd y mae'r newid mwyaf, naw wedi ymadael a naw chwaraewr newydd, ar y cyfrif diweddara', wedi ymuno â'r clwb, a Frank Burrows, y rheolwr, yn cyhoeddi fod angen mwy o gystadleuaeth am le yn y tîm cyntaf. Mae'r canlyniadau cynnar yn awgrym o dymor hir a chaled eto. Dechrau siomedig yn y cynghrair ac allan o Gwpan Worthington yn y rownd gyntaf fel Wrecsam ac Abertawe.

Bydd Merthyr a Chasnewydd eto yn chwarae mewn cynghreiriau yn Lloegr - ac o ran Cynghrair Cenedlaethol Cymru mae 'na bryderon o hyd - torfeydd yn siomedig a'r clybiau yn dibynnu i raddau helaeth ar noddwyr - a rhy ychydig o lawer o fechgyn Cymru yn y timau, a gormod o'r tu hwnt i Glawdd Offa.

### Nofio i godi arian

Ddiwedd Mehefin bu Rhian Bennett o Lys-faen, disgybl yn Ysgol Gyfun Glantaf, yn nofio ym mhwll nofio'r Ganolfan Chwaraeon, Gerddi Sophia, i godi arian ar gyfer y sefydliad sy'n astudio marwolaethau babanod. Llwyddodd i nofio pedwar cant o hydoedd (sy'n golygu 10,000 o fetrau) mewn ychydig dan bedair awr. Cododd £300 at yr achos.

**EISTEDDFOD GADEIRIOL**
**AMGUEDDFA WERIN CYMRU**

**SAIN FFAGAN**

**Dydd Sadwrn, 21 Tachwedd, 1998**

**TESTUNAU LLENYDDOL**
**Beirniad: Islwyn Jones**

1. Cerdd y Gadair: 'Amgueddfa Werin Cymru'
*Gwobr:* Cadair fechan o waith un o grefftwyr yr Amgueddfa Werin.
2. Soned, Cywydd neu gyfres o Englynion: 'Iorwerth C. Peate' neu 'Ffransis G. Payne'
3. Englyn: 'Y Cynulliad Cymreig'
4. Triban neu Bennill: 'Unrhyw Gymro neu Gymraes a anwyd yn ystod yr ugeinfed ganrif
5. Pennill Beddargraff doniol: Agored
6. Limrig:
Wrth grwydro'n Sain Ffagan ryw ddiwrnod
Fe welais beth rhyfedd a hynod...
7. Brawddeg neu Frawddegau a phob gair yn dechrau â'r llythrennau D neu DD
8. Brawddeg o'r llythrennau yn yr enw 'Llwyn-yr-eos'
9. Brysneges /Teligram heb fod dros bymtheg gair
10. Ysgrif o dan 16: 'Diwrnod yn Sain Ffagan'
11. Ysgrif agored: 'Yr Etifeddiaeth' neu 'Amgueddfa Werin Cymru'

Y Cyfansoddiadau i'w hanfon at un o'r Ysgrifenyddion cyn **5 Tachwedd:**

Elaine Roszkowska a Meinwen Ruddock,
Amgueddfa Werin Cymru, Sain Ffagan, Caerdydd
CF5 6XB. Ffôn: 01222 573432, 573427 neu 573500

Mewn amlen o dan sêl dylid cynnwys: rhif a theitl y gystadleuaeth, ffugenw, enw llawn, cyfeiriad a rhif ffôn. Ar wyneb yr amlen noder: rhif a theitl y gystadleuaeth a'r ffugenw.

Rhaglen ar gael gan un o'r Ysgrifenyddion.



Y NAIN - Lisabeth Miles



Y FAM - Betsan Llwyd

**DALIER SYLW**

yn cyflwyno

**'tair'**

gan

Meic Povey



Y FERCH - Catrin Powell

ar daith ledled Cymru
Medi 10fed - Hydref 3ydd

| Y NAIN | Y FAM | Y FERCH |
|---|---|---|
| Lisabeth Miles | Betsan Llwyd | Catrin Powell |

tair menyw, tair cenhedlaeth, tri bywyd gwahanol iawn
. . . ond pa mor wahanol yw y tair mewn gwirionedd?

**Theatr Sherman, Caerdydd**
**Nos Iau/Nos Wener/Nos Sadwrn**
**1, 2, 3 Hydref - 8.00 y.h.**
**Tocynnau: 01792 863722**

***'Gwen a gwefr . . . chwip o sgript oedd yn taflu dyn o wg i wen ac yn ôl.'***
***WESTERN MAIL***

Am fanylion pellach ynglŷn â'r daith, cysylltwch â Dalier Sylw 01222 236650.

**siop siarad S4C**

## Y safle ar y We lle y mae pawb yn gallu

*Cadw Mewn Cysylltiad*

*Y lle delfrydol ar gyfer . . .*

☆ *torri gair gyda pherthnasau sy'n byw dramor*

☆ *cyfathrebu â phobl ledled y byd*

☆ *cael hwyl wrth drafod a hel clecs*

# www.s4c.co.uk

**Delfrydol ar gyfer dysgwyr sydd eisiau ymarfer eu Cymraeg**
**Siop Siarad a oruchwylir**

S4C

# J. A. HUGHES gyda REES WOOD a TERRY

JAH

A ydych chi wedi cael **damwain?**

Efallai y gallwch hawlio **iawndal?**

Mae'r cyfweliad cyntaf **yn rhad ac am ddim.**

Cysylltwch â Rhys Ll. Thomas
01222 - 666222